# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 18 Mai 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Ystadegau Marchnad Llafur

**C10 Elin Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglyn â ffigyrau diweddaraf ystadegau marchnad llafur? (OAQ35076) [W]

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae ffigurau diweddaraf yr Arolwg Gweithlu, ar gyfer y tri mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth, yn dangos cynnydd o 26,000 mewn cyflogaeth o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Yn fwy na hynny, cafwyd cynnydd o 12,000 mewn cyflogaeth yn y tri mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr. Mae'r gyfradd gyflogaeth ar gyfer oedran gweithio yn gyffredinol ar ei uchaf yn hanesyddol, sef 72.6 y cant, llai na thri phwynt canran yn is na ffigur y DU, sef 74.9 y cant, ac mae diweithdra yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU.

*Atebwyd cwestiwn 11 (OAQ35077) yn y Cyfarfod Llawn.*

### Menter Ariannu Preifat yn y Gwasanaeth Iechyd

**C12 David Melding:** Pa fesurau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i gynyddu'r defnydd a wneir o PFI o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol? (OAQ35080)

**Y Prif Weinidog:** Disgwylir i ymddiriedolaethau'r GIG i ddilyn y broses amlinellwyd yn y 'Llawlyfr Buddsoddi Cyfalaf'. Mae hyn yn gofyn bod mentrau yn cael eu profi ar gyfer Menter Cyllid Preifat.

### Symud Swyddi yn y Gwasanaeth Iechyd

**C13 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y bwriad i symud swyddi gweinyddol yn y gwasanaeth iechyd o Gaernarfon i'r Wyddgrug? (OAQ35099) [W]

**Y Prif Weinidog:** Bydd y cynnig arfaethedig i gau canolfan gwasanaethau busnes GIG Caernarfon yn destun cyfnod ymgynghori o dri mis, y bwriedir iddo ddechrau ar 27 Mai 2004, ar ôl i Fwrdd Iechyd Lleol Powys ystyried y mater gan mai hwy sy'n rhedeg y ganolfan gwasanaethau busnes ar ran yr holl fyrddau iechyd lleol.

Bydd y ddogfen ymgynghori yn cael ei dosbarthu ymysg ystod eang o gyrff perthnasol a chyrff rhanddeiliaid, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar ganlyniad y broses 90 diwrnod ar ôl i Fwrdd Iechyd Lleol Powys ystyried a gwerthuso ymatebion mewn cysylltiad â'r ymgynghori yn ei gyfarfod bwrdd ar 15 Medi 2004.

### Ailgyflwyno'r Llyfr Pensiwn

**C14 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'i gymheiriaid yn Llundain ynglyn ag ailgyflwyno'r llyfr pensiwn? (OAQ35103)

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ynglŷn ag ailgyflwyno'r llyfr pensiwn. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a minnau'n derbyn y wybodaeth a gyhoeddir bob pythefnos gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â thalu pensiynau a budd-daliadau, a pharhawn i fonitro'r sefyllfa yn agos.

## Cyllid i Awdurdoau Lleol

**C15 Sandy Mewies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr amryw ffynonellau cyllid sy'n galluogi awdurdodau lleol i wella eu cymunedau? (OAQ35093)

**Y Prif Weinidog:** Yn 2004-05, caiff lywodraeth leol £3.1 biliwn o gefnogaeth nas neilltuir i'w gwario fel y mynno i ddarparu gwasanaethau rheng flaen a gwella ei chymunedau. Yn ychwanegol, caiff dros £500 miliwn mewn grantiau at ystod eang o ddibenion penodol fydd hefyd yn helpu i wella cymunedau.